Cystadleuaeth Farddoni Mamiaith – Ail Iaith
Mother Tongue – Other Tongue Poetry Competition

# Rheolau

## Cymhwyster

Mae Cystadleuaeth Farddoni Mamiaith – Ail Iaith yn agored i bob ysgol prif ffrwd ac ysgol ategol yng Nghymru, a gall disgyblion/myfyrwyr gyflwyno cynigion fel unigolion neu grwpiau o unrhyw faint. Rydym hefyd yn croesawu cynigion gan grwpiau cymdeithasol fel y Brownis, y Geidiaid a'r Sgowtiaid.

## Categorïau iaith

Mae'r gystadleuaeth wedi ei rhannu'n ddwy ran benodol, a fydd yn cyd-redeg.

### Mamiaith

Bydd cynigion y categori hwn mewn dwy ran**:**

1. Y rhan gyntaf yw'r gerdd, cân, hwiangerdd neu ddarn byr o ryddiaith. Gall hwn fod yn waith creadigol, gwreiddiol, a ysgrifennwyd ym mamiaith yr ymgeisydd. Gall hefyd fod yn gerdd neu'n gân 'o'r cof' – h.y. rhywbeth yn eich mamiaith yr ydych yn ei gofio, neu y mae perthynas wedi ei adrodd wrthych chi. Nodwch y caiff y darn hwn fod mewn unrhyw iaith ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg.

2. Bydd ail ran y cynnig yn esboniad ysgrifenedig byr ar y rhan gyntaf. Bydd hwn yn nodi pam mae'r ymgeisydd wedi dewis rhannu'r darn hwn h.y. pam mae'n bwysig iddyn nhw neu i'r unigolyn a rannodd y darn gyda nhw. Mae'n rhaid i'r rhan hwn o'r gystadleuaeth gael ei ysgrifennu yn y Saesneg neu'r Gymraeg, ond gall athrawon, rhieni, gofalwyr neu ffrindiau helpu disgyblion/myfyrwyr i ysgrifennu neu olygu'r darn hwn. Croesawn gynigion wedi'u hysgrifennu ar y cyd.

### Ail Iaith

Bydd pob cynnig yn y categori hwn yn un gerdd wreiddiol, wedi ei hysgrifennu mewn iaith sy'n cael ei hastudio yn yr ysgol, nad yw hi'n famiaith i'r ymgeisydd. Mae'n rhaid i hwn fod yn ddarn o waith gwreiddiol, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion/myfyrwyr fod yn greadigol gyda'u Hail Iaith.
Yr ieithoedd a ganiateir yn y categori hwn yw**:**

- Sbaeneg
- Ffrangeg
- Almaeneg
- Eidaleg

## Categorïau Oedran

Mae pedwar categori oedran yn y gystadleuaeth hon, sy'n seiliedig ar flynyddoedd ysgol:

- Blynyddoedd 5 a 6
- Blynyddoedd 7, 8 a 9
- Blynyddoedd 10 ac 11

Cystadleuaeth Farddoni Mamiaith – Ail Iaith
Mother Tongue – Other Tongue Poetry Competition

- Blynyddoedd 12 a 13

Rhaid i bob cynnig (pa un ai o goleg ynteu gan grŵp cymdeithasol ynteu gan unigolyn y daw) gydymffurfio ag un o'r categorïau hyn.

**I roi cynnig**

Mae'n RHAID i **Daflen Cyflwyno Cynigion MTOT** fod ynghlwm wrth bob cynnig. Nodwch na allwn dderbyn cynigion heb daflen gyflwyno ynghlwm wrthyn nhw.

I gyflwyno'r cynigion drwy e-bost, anfonwch eich cynnig a'r daflen gyflwyno i **routescymru@ciltcymru.org.uk** gyda "MTOT 2013" yn y blwch pennawd.

I gyflwyno cynigion drwy'r post, anfonwch gopi o'ch gwaith a'r daflen gyflwyno i:
MTOT 2013,
Llwybrau at Ieithoedd Cymru,
245 Rhodfa'r Gorllewin,
Caerdydd CF5 2YX.

**Dyddiad cau**

Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw **dydd Gwener, 24 Mai 2013**.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Rydym yn gofyn yn garedig am eich help gyda'r broses feirniadu drwy ddewis dim mwy na thri o'r cynigion gorau fesul grŵp oedran, fesul categori, cyn eu cyflwyno i'r gystadleuaeth genedlaethol.

Rhaid i'r darn fod yn waith gwreiddiol gan yr unigolyn/grŵp. Yn y categori Mamiaith, nid oes angen i'r gerdd/cân/dyfyniad fod yn ddarn gwreiddiol, ond mae'n rhaid i'r sylwadau fod yn waith gwreiddiol, gan mai ar sail hynny y beirniedir y gwaith.

Er ein bod ni'n croesawu cynigion â lluniau, beirniedir y gwaith ysgrifenedig yn unig, ac nid y gwaith celf.